Gwener 15 Gorffennaf
Friday 15 July

NOSON 4a6 (C/S)

8pm, £5, Neuadd y Farchnad / Market Hall

Ifor ap Glyn yn cyflwyno noson arbennig o adloniant o bell ac agos. Cawn fwynhau set gomedi ecslwsif gan Juliet Meyers a cherddoriaeth fyw gan Trwbadôr, Lleuwen, Baron Ramante a'r anfarwol Meic Stevens.

Ifor ap Glyn presents a special evening of entertainment from near and far. Enjoy Juliet Meyers' Edinburgh preview comedy set and live music by Trwbadôr, Lleuwen, Baron Ramante and Meic Stevens.

LANSIO ALBWM
ALBUM LAUNCH

9pm, £5, Clwb Canol Dre

Pethe Coll yn croesawu Sibrydion, hoff feibion Waunfawr adra'n ôl i'r dre wrth iddyn nhw lansio eu halbwm newydd **Uwchben y Drefn** yn nghwmni Mr Huw a Sensegur.

The boys are back in town! Pethe Coll welcome Sibrydion, Waunfawr's favourite sons home as they launch their new album **Uwchben y Drefn** *with Mr Huw and Sensegur.*

BANDA BACANA

10pm, am ddim, Anglesey

Grŵfiau ffynci Affro Lladinaidd Banda Bacana fydd yn llenwi tafarn yr Anglesey ar noson gynta'r ŵyl. Dewch draw i symud eich traed i grŵp sy'n siŵr o wneud i chi deimlo'n fyw!

Funky Afro Latin grooves from Banda Bacana will fill the Anglesey on the first night of the festival. Come on over and get groovy to the group who will make you feel so alive!

Sadwrn 16 Gorffennaf
Saturday 16 July

SESIWN STORI (C)

10am, am ddim, Palas Print

Mari Gwilym fydd yn diddanu'r plant gyda storiau amrywiol. Addas i blant tua 4-8 oed

Mari Gwilym will be entertaining children with a variety of stories for children 4-8 year old.

MARCHNAD Y CYMRY
SATURDAY STALLS

10am -5pm, am ddim / free
Neuadd y Farchnad

Stondinau crefft a nwyddau cartref gan gynhyrchwyr lleol gan gynnwys Peris & Corr, bOtwm, Cardiau Cofi a mwy.

Stalls selling craft and home-made goods by local producers including Peris & Corr, bOtwm, Cardiau Cofi and more.

DIOLCH
THANKS

IARD

GWEITHDY IARD
WORKSHOP (C/S)

(oedolion / adults)
10am -12pm, £2.50,
27 Stryd Fawr

Gweithdy creu ffrâm o lechen. Dewch i ddysgu hacio a siapio llechen er mwyn creu darn o grefftwaith Cymreig gyda'r artist, Dave Stephen.

Make a frame out of slate. Come and learn how to hack and shape slate to create a piece of Welsh craft with the artist, Dave Stephen. .

MEIC AGORED
OPEN MIC (C/S)

12-4pm am ddim / free
Neuadd y Farchnad, Market Hall

Cyfle i glywed talentau cerddordol o'r dre a thu hwnt.

Musical talents from the town and beyond.

DIOLCH
THANKS

New Welsh Review

Radio Cymru

Anglesey Arms

North Wales Dance Classes

(C) digwyddiad yn Gymraeg (S) event in English (T) translation facilities available
(C/S) digwyddiad Cymraeg a Saesneg / elements in Welsh and English

Sadwrn 16 Gorffennaf
Saturday 16 July

NEW NOVELS (S)

11am, £4, Clwb Canol Dre

Dwy nofel newydd, dau nofelydd newydd. Bydd Patrick McGuinness, bardd llwyddiannus sy'n byw yng Nghaernarfon yn cyflwyno'i nofel gyntaf **The Last Hundred Days**, sydd wedi ei osod yn Romania ar ddiwedd cyfnod Ceauşescu, a bydd Shireen Jilla yn trafod ein nofel gyntaf **Exiled** sydd wedi'i gosod yn Efrog Newydd, yng nghwmni Ifor ap Glyn.

*Two new novels by two new novelists. Local resident and successful poet, Patrick McGuinness presents his first novel **The Last Hundred Days**, set during the last days Ceauşescu's Romania. Shireen Jilla talks about her New York novel **Exiled**. Chaired by Ifor ap Glyn*

SINEMA ARALL / ANOTHER CINEMA

12pm, am ddim/ free, Porth Mawr

Orange Martini, Vienna gan O R Davidoff gyda Gwydion Rhys, Jobe Bruzas a Dyfed Bowen. Stori tri ffrind yn cyfarfod am y tro cyntaf ers iddynt adael cartref i fynd i brifysgolion gwahanol. (40 munud).

***Orange Martini, Vienna** by O R Davidoff with Gwydion Rhys, Jobe Bruzas and Dyfed Bowen. A story of three friends reuinted for the first time since leaving home to go to university. (40 minutes).*

BYW MEWN FFANTASI (T)

12.30pm, £4, Clwb Canol Dre

Catrin Beard fydd yn holi Siân Northey a Gwen Parrott am ddwy o nofelau mwyaf cyffrous y flwyddyn, **Yn Y Tŷ Hwn** a **Hen Blant Bach**

*Two of the most talked about contemporary Welsh novelists, Siân Northey and Gwen Parrott, discuss their novels Yn Y Ty Hwn and Hen Blant Bach with Catrin Beard, **Yn Y Tŷ Hwn** and **Hen Blant Bach**.*

GWEITHDY PICASSOS BACH WORKSHOP

1-3pm, £1.50, 27, Stryd Fawr

Dewch i greu gwas y neidr o wifren a chopr gyda'r artist Ann Catrin. Addas ar gyfer plant dros 5 oed, rhaid i blant fod dan ofal rhiant neu oedolyn.

Come and create a dragonfly out of wire and copper with the artist, Ann Catrin. Suitable for children aged 5 upwards, children must be accompanied by a parent / adult

SINEMA ARALL / ANOTHER CINEMA

1pm, am ddim / free, Porth Mawr

Ymdeimlad o Sain gan Jessica Balla, artist ifanc o ogledd Cymru. Cyfuniad trawiadol o ffilm, animeiddio a cherddoriaeth. (7 munud)

***The Sense of Sound** by Jessica Balla, a young artist from north Wales, is a striking combination of film, animation and music. (7 minutes)*

Brad y Llyfrau Gleision gan Elen Bonner a pherfformiad Clwb Ffermwyr Ifanc Tregaron. Mae'r gwaith yn archwilio gallu cymuned i'w deall ei hun ac yn herio'r ffordd y mae'n dewis cael ei phortreadu. (30 munud)

***Treachery of the Blue Books** by Elen Bonner and performed by the Tregaron Young Farmers Club. The work examines a community's understanding of itself and questions the way in which it chooses to be portrayed. (30 minutes)*

PARTHIAN PRESENTS

2pm, £4, Clwb Canol Dre

Daw Niall yn ôl i Gŵyl Arall i drafod ei lyfr diweddaraf **Ten Pound Pom**, a chroesawn yr awdur ifanc o Aberaeron, Cynan Jones, fydd yn trafod ei ail nofel iddisgwyliedig, **Everything I Found on the Beach.**

*Niall returns to Gŵyl Arall to discuss his latest book **Ten Pound Pom** & young author, Cynan Jones debuts with his long awaited second novel, **Everything I Found on the Beach.***

SINEMA ARALL / ANOTHER CINEMA

2pm, am ddim / free, Porth Mawr

Waste Land. Tomen sbwriel mwya'r byd. Ail-gylchu. Celf. Datblygiad cymdeithasol. Cyfunwch y pethau yma, ac fe gewch chi ddogfen brydferth sydd wedi gwneud argraff fawr yn y byd ffilmiau. Enillydd sawl gwobr yn cynnwys Sundance ac Amnest Rhyngwladol ac enwebwyd am Wobr Academy ®. (99 munud)

***Waste Land.** The world's largest rubbish dump. Recycling. Art. Social development. Mix these together and you get a beautiful documentary that has impressed the film world. Winner of many major awards including Sundance and Amnesty International and an Academy Award ® nomination. (99 minutes)*

TYD AM DRO CO (C)

2pm, £5, Neuadd y Farchnad, Market Hall

Taith hanesyddol o gwmpas waliau tref Caernarfon yng nghwmni'r hanesydd difyr Emrys Jones.

Sadwrn 16 Gorffennaf
Saturday 16 July

BYW ARLEIN
LIFE ONLINE
Haciaith Bach (C)

3pm, am ddim
Cegin, Neuadd y Farchnad

Trin a thrafod technoleg yn Gymraeg. Cyfle i gîcs (ac eraill) ddod at ei gilydd yng nghwmni Llion Jones, Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr, gwefeistr Annedd y Cynganeddwyr a dyn sy'n trydar mewn cynghanedd yn unig. Croeso i bawb.

Tech talking in Welsh. An opportunity for geeks (and others) to get together in the company of Llion Jones, Director of canolfan Bedwyr, webmaster of Annedd y Cynganeddwyr and a man who tweets only in cynghanedd. All welcome

NATUR BYW
NATURE LIVE

3pm, £5, Anglesey

Taith natur o gwmpas y dref yng nghwmni'r naturiaethwr Duncan Brown a'r adaryddwr Siôn Dafis. Addas iawn i ddysgwyr Cymraeg.

Naturalist Duncan Brown leads a nature walk around the town with birdman Siôn Dafis. Very suitable for Welsh learners.

BYW I'R EITHAF!
EXTREME LIVING! (T)

3.30pm, £4, Clwb Canol Dre

Mae Elin Haf yn gwybod sut i fyw. Enillodd gapiau yn chwarae rygbi i Gymru, rhedodd 8 marathon mewn 4 wlad gwahanol ac fel awdures cyrhaeddodd ei llyfr **Ar Fôr Tymhestlog** restr hir Llyfr y Flwyddyn 2011. Bydd yn sgwrsio gyda'r awudr ac anturiaethwr Llion Iwan, am ei theithiau rhwyfo a sut y mae'n cyfuno ei chwant am antur gyda'i gyrfa fel nyrs

*Elin Haf knows how to live. She won caps playing rugby for Wales, ran 8 marathons in 4 countries and as author of **Ar Fôr Tymhestlog** reached the Wales Book of The Year longlist. She talks to Llion Iwan, adventurer and author, about her rowing challenges and how she combines her taste for adventure with her career as a nurse.*

DIOLCH
THANKS

Cymen

Oren

Antena

SINEMA ARALL /
ANOTHER CINEMA

4pm, am ddim / free
Porth Mawr

Diolch i gyfarwyddwyr lleol, mae 'na fideo i bob cân oddi ar albym Mr Huw, **Gogleddwyr Budur**. Dyma gyfle i'w gweld gyda'i gilydd am y tro cyntaf (yn cynnwys cwpwl o premieres), yn ogystal ag ambell gân newydd yn fyw gân Mr Huw. (1 awr)

*With the help of local filmmakers, Mr Huw has produced a video for every song on his latest release, **Dirty North Walians**. Here is a chance to see them together for the first time (including a couple of premiers). And to top it all –Mr Huw will be performing some new songs live!! (1hour).*

JE NE REGRETTE RIEN? (T)

5pm, £4, Clwb Canol Dre

Mae Siân James ac Annette Bryn Parri wedi cofnodi hanes eu bywydau yn ystod y flwyddyn diwethaf. Byddant yn sgwrsio gyda Sioned Webb am y broses sgwennu ac yn byr-fyfyrio am unrhywbeth arall sy'n cymryd eu ffansi.

Siân James & Annette Bryn Parri, two of Wales most recognised musicians chat with Sioned Webb about their recent biographies, and anything else which takes their fancy.

DIM OND DWY A DILLAD DRE (C)

5.30pm, £7, Neuadd y Farchnad

Llio Silyn a Rhian Morgan fydd yn bwrw golwg llawn nostalja ar fywyd drwy gyfrwng barddoniaeth, llenyddiaeth, straeon a chymeriadau lliwgar. Ynghyd â sioe ffasiwn o ddillad y dref.

A funny nostalgic look at life with two actors using poetry, literature and stories, along with a fashion show of clothes from the town's shops.

SINEMA ARALL /
ANOTHER CINEMA

5:30pm, am ddim / free
Porth Mawr

Making it Home yw ffilm Siân Harries am Kev a Carol Richards o Benybont ar Ogwr sydd wedi troi eu cartref yn bencadlys i'w helusen 'Healing The Wounds', i helpu cyn-filwyr sy'n

(C) digwyddiad yn Gymraeg
(S) event in English
(T) translation facilities available
(C/S) digwyddiad Cymraeg a Saesneg / elements in Welsh and English

dychwelyd i Gymru. Mae un allan o bob deg cyn-filwr yn byw ar y stryd ac hefyd yn cyfrannu at 8.5% o boblogaeth ein carchardai. (25 munud)

Making it Home *is a film by Siân Harries about. Kev and Carol Richards from Bridgend, who have turned their home into HQ of their charity 'Healing the Wounds.' One in ten combat veterans end up on the street - and make up 8.5% of the prison population. Kev and Carol want to do something to help the former soldiers coming back to Wales. (25 minutes)*

NOSON JOIO BYW (C)

8pm, £8, Neuadd y Farchnad

Noson arbennig yng nghwmni Pod, ateb Cymru i'r diweddar Humphrey Lyttleton, a fydd yn cyflwyno caneuon, straeon a stand-yp gyda Siân James, Glyn Wise a DJ Nia Medi, a chydig o blŵs gan Sonnyboy Jones.

Pod, Wales' answer to the late Humphrey Lyttleton, presents an evening of unique entertainment including songs, stories and stand-up with Siân James, Glyn Wise and DJ Nia Medi and some blues from Sonnyboy Jones.

DJ JOHN GEDRU

10pm, £3, Bar Canfas, Medi

John 'Gedru' Griffiths, sylfaenydd y grŵp dylanwadol Llwybr Llaethog sy'n cyflwyno ei ddewis personol o gerddoriaeth. Dawnsiwch tan y bore!

John 'Gedru' Griffiths, founder of the legendary Llwybr Llaethog presents music from his personal collection. Dance 'til late!

Sul 17 Gorffennaf
Sunday 17 July

CAROL ANN DUFFY & GILLIAN CLARKE

12pm, £8, Clwb Canol Dre

Rydym yn falch iawn o groesawu Bardd Llawryfog Ynysoedd Prydain Carol Ann Duffy, a Bardd Cenedlaethol Cymru, Gillian Clarke, yn ôl i Gaernarfon ac i Gŵyl Arall i ddarllen rhai o'u cerddi newydd a hen.

We're proud to welcome Poet Laureate, Carol Ann Duffy, and National Poet

of Wales, Gillian Clarke back to Caernarfon & Gŵyl Arall to read poems old and new.

SINEMA ARALL / ANOTHER CINEMA

12pm, am ddim / free, Porth Mawr

Yr Ynys gan Elin Morse ynglŷn â dychwelyd i'r gorffennol i wynebu her newydd. Mae Elin yn camu nôl i Ynys Flores (Indonesia), ble bu'n gweithio am dair blynedd gyda gwasanaeth gwirfoddol, VSO. (45 munud)

Yr Ynys *by Elin Morse about returing to the past to face a new challenge. Elin goes back to Flores Island (Indonesia), where she worked as a VSO for 3 years. (45 minutes)*

Sul 17 Gorffennaf
Sunday 17 July

SINEMA ARALL
ANOTHER CINEMA

***talent lleol / local talent**

1pm, am ddim, Porth Mawr

Blas o ffilmiau gynhyrchwyd gan gyfarwyddwyr lleol yn y flwddyn diwethaf, gan Paul Higginson, Gregg Byatt, Llio Non a myfyrwyr Coleg Menai, ynghyd â chyhoeddi cystadleuaeth Ffilm Gŵyl Arall 2012.

A taste of films by local directors produced during the past year, by Paul Higginson, Gregg Byatt, Llio Non and Coleg Menai students, along with the announcement of the Gŵyl Arall 2012 film competition.

A OES BYWYD? (T)

1.30pm, £4, Neuadd y Farchnad /Market Hall

Bydd yr Athro Deri Tomos yn rhoi darlith llawn bywyd gan geisio mynd dan groen y cwestiwn A Oes Bywyd? gan deithio i blanedau eraill yn ogystal a thwrio'n ddwfn i'n gwneuthuriad.

Dr Deri Tomos delivers a lively lecture in an attempt to discover the answer to the question Is there Life? travelling to other planets and delving deep into our what makes us living beings.

BYW YN Y WLAD (T)
LIVING IN THE COUNTRY

1.30pm, £4, Clwb Canol Dre

Mae Simon Thirsk, awdur **Not Quite White** a Mike Parker, awdur **Neighbours from Hell** a **The Wild Rover**, wedi ymdrin â'r berthynas rhwng Cymru a Lloegr, y Cymry a'r Saeson yn eu gwaith. Byddant yn trafod y themâu hyn a materion eraill yng nghwmni Dr Angharad Price.

*Simon Thirsk author of Costa shortlisted novel **Not Quite White**, & Mike Parker author of **Neighbours from Hell** and **The Wild Rover** have explored the nature of the relationship between Wales and England, the Welsh and the English. They will discuss these themes and their books with Dr Angharad Price.*

MY TOWN MY WALK

2pm, £5, Lloyd George Statue

Take a fun-filled walk with local historian Emrys Jones around the walled town of Caernarfon.

SESIWN ARALL!

2.30 pm am ddim / free Anglesey

Y sesiwn werin flynyddol. Pwy fydd yn taro tant eleni? Dewch i weld a dewch â'ch offeryn.

The annual folk-jam session. Who will strike a chord this year? Come and see and bring your thing.

© Claire Richardson

ELISABETH LUARD (S)

3pm, £4, Clwb Canol Dre

Elisabeth Luard is a seasoned food writer. She will discuss food writing and **A Cook's Year in a Welsh Farmhouse**.

*Branwen Niclas fydd yn holi'r awdures doreithiog yma am ei bywyd a'i gwaith a'i llyfr hyfryd diweddaraf **A Cook's Year in a Welsh Farmhouse**.*

GWYMON GAN MEIC STEVENS

3pm, am ddim, Porth Mawr

Dewch i wrando'n dawel ar yr albym wnaeth, yn ôl Dyl Mei, lusgo'r Cymry allan o'r 50au ac ymlaen i'r dyfodol a'i thrafod yng ngwmni'r DJ.

A rare opportunity to sit quietly and listen to a groundbreaking album from beginning to end in the company of Dyl Mei.

TU CHWITH: Y FARCHNAD EIRIAU (C)

4pm, £4, Neuadd y Farchnad

Lle i gyfnewid syniadau a chymdeithasu, ynghyd â thrin pynciau llosg yn y farchnad eiriau gyda chyfranwyr cylchgrawn Tu Chwith.

A place to exchange ideas and socialise, as well as deal with the hot topics of the day with contributors to the magazine Tu Chwith.

DIOLCH
THANKS

NOSON ALLAN

GWESTY'R CASTELL

Sul 17 Gorffennaf
Sunday 17 July

SINEMA ARALL / ANOTHER CINEMA

4.30pm, am ddim / free, Porth Mawr

Birdman of the Karakoram Ffilm antur syfrdanol gan Alun Hughes. Gyda John Silvester o Glwt y Bont - un o baragleidwyr mynydda gorau'r byd, aiff Alun ar daith arbennig o anturus i'r Himalaya gan fynd, yn llythrennol, lle nad yw dyn wedi bod o'r blaen. Dyma bortread o arloesi athrylithgar a gwallgof John Silvester a dyfalbarhad brawychus Alun. (65 munud)

Birdman of the Karakoram.

A mind blowing adventure film by Alun Hughes. John Silvester, from Clwt y Bont, is the world's greatest 'big mountain' paraglider pilot. He takes film-maker Alun on the trip of a lifetime – exploring the inaccessible Himalaya, soaring to over 6000metres, and literally going where no man has gone before. This is a portrait of the mad pioneering genius of John and the terrified determination of Alun.

Ennillydd / Winner of 'Best Film on Human Adventure' St Hilaire Film Festival, France. (65 minutes)

TAJIKISTAN: (T)

5.30pm, £4 Neuadd y Farchnad/ Market Hall

Merched Rhyw a Dannedd Aur. Cyfle i fynd ar daith i Tajikistan yng nghwmni Malan Wilkinson a Branwen Niclas a fu yno ym mis Mai. Dewch i gyfarfod rhai o bobl y wlad angofiedig ond rhyfeddol hon yn ystod orig hwyliog o gerdd, cân a hanesion anhygoel.

Women, Sex & Gold Teeth *Visit Tajikstan in the company of Malan Wilkinson and Branwen Niclas who recently visited the country. Meet some of the people of this forgotten yet astounding country in a musical and poetic session full of humour and amazing tales.*

DRAMA POT PEINT (C)

5.30pm, £5, Coetsiws y Black Boy

Chwe awdur, pedwar actor, un thema... a sawl peint! Cafodd hanner dwsin o ddramodwyr newydd a phrofiadol gwta fis i lunio hyd at ddeng munud o sgript, yn ymateb i'r un her. Y thema yw 'Byw', yr awduron yw Meic Povey, Gwion Hallam, Llyr Gwyn Lewis, Gwilym Dwyfor, Rhodri Trefor, ac Angharad Griffiths, a chawn glywed ffrwyth (amrywiol) eu llafur dros beint neu ddwy.

Six authors, four actors, one theme ...and a few pints! *Half a dozen new and experienced dramatists were challenged to come up with a script of up to ten minutes. Their theme is 'Live', the authors are Meic Povey, Gwion Hallam, Llyr Gwyn Lewis, Gwilym Dwyfor, Rhodri Trefor, and Angharad Griffiths, and we will enjoy the fruits of their labours over a couple of pints.*

BRYN FÔN A MWY

7pm, £6, Clwb Canol Dre

Gig i groesawu 3 hogyn ffit i'r dre ar eu taith gerdded i Gaerdydd o Gaergybi. Bydd Mr Huw, Something Personal, Ifan Dafydd a Tom ap Dan yn ymuno gyda Bryn Fôn a phob ceiniog yn mynd i hosbis plant Tŷ Gobaith.

A gig to welcome 3 fit blokes to town as they walk from Holyhead to Cardiff. Mr Huw, Something Personal, Ifan Dafydd and Tom ap Dan join Bryn Fôn and every penny goes to children's hospice Hope House.

CABARET ARALL (C/S)

7.30pm, £8, Neuadd y Farchnad / Market Hall

Pod yn cyflwyno noson o rhemprwydd diniwed. Adloniant pur yng nghwmni beirdd (Ifor ap Glyn, Karen Owen a Nici Beech), monolog newydd gan Llio Non, consuriwr Paul Eds Y Dewin, cerddoriaeth gyda Geraint Løvgreen, Aron Elias a Treflyn a dawnsio gyda Viva Burlesque.

Pod presents an evening of innocent debauchery. Pure entertainment in the company of poets (Ifor ap Glyn, Karen Owen and Nici Beech) a new monologue by Llio Non, magician Paul Eds Y Dewin, music with Geraint Løvgreen, Aron Elias and Treflyn and dancing with Viva Burlesque.

MAFFIA MR HUWS

10pm, am ddim / free, Anglesey

Un o fandiau mwyaf dylanwadol y 1980au sy'n cloi'r ŵyl. Dewch i fwynhau reggae racs orau a chydig o Pesda Roc efo'r 'ogia yn fyw ar lan y Fenai.

One of the 1980s most influential bands close the festival. Come and enjoy the best ragged reggae and some Pesda Roc with the boys live from the banks of the Menai.

Trwy'r Penwythnos
Throughout the weekend

TAITH GELF

Mynnwch gopi o fap y Daith Gelf i dywys eich hun o amgylch y dref i weld arddangosfeydd a gwaith celf cyffrous mewn orielau ac ambell i fan annisgwyl. Gallwch fachu map ym Mhalas Print, Cegin neu y tu mewn i raglen Gŵyl Arall 2011. Artistiaid yn cynnwys: Jessica Balla, Elen Bonner, Alys Owen.

ART TRAIL

Grab a map to guide yourself around the town to see exciting exhibitions and artworks in galleries and the odd unexpected location. Grab a map from Palas Print, Cegin or inside the Gŵyl Arall 2011 programme. Artists include: Jessica Balla, Elen Bonner, Alys Owen.

BWYD Y BYD

Bydd nifer o fwytai a chaffis y dre yn paratoi danteithion arbennig ar gyfer yr ŵyl er mwyn i bawb allu bwyta'n dda ac yn sydyn yn ystod y penwythnos. Chwiliwch am y posteri Bwyd Gŵyl Arall yn y gwahanol leoliadau.

WORLD STREET FOOD

Many restaurants and cafes will be preparing special delicacies for the festival so we can all eat well and quickly during the weekend. Look out for Gŵyl Arall Food posters at the various locations.

DIOLCH THANKS

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

PETHE

SBX.me

RONDO

Cyngor Tref Caernarfon

Palas PRINT

Cegin

W.O. JONES (PRINTERS) LTD.